# AI A CHYMRU: CRYNODEB

Mae AI wedi bodoli ers dros hanner canrif, ond bellach mae datblygiadau newydd ym maes AI Cynhyrchiol (fel ChatGPT a DeepSeek) yn golygu y gall bellach berfformio amryw o swyddogaethau a chreu data newydd.

Gall AI cynhyrchiol gynhyrchu testun argyhoeddiadol, ond mae'n dal i gyflwyno ffuglen fel ffaith, ac nid yw'n deall iaith.

## RHESTR WIRIO AI DIBYNADWY

- ✓ mae'r dasg wedi'i chyfyngu'n ddigonol
- ✓ mae yna gydweithredwr dynol
- ✓ mae'r data'n gul ac wedi'u dilysu
- ✓ buddioldeb, diniweidrwydd, a gonestrwydd wedi'u hymgorffori

CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

## RHEOLEIDDIO

Ceir prinder anarferol o drefniadau rheoleiddio, safonau a sicrwydd ansawdd yn y sector AI.

Mae'n haws colli ymddiriedaeth na'i hennill: gan fod datblygiad AI yn cael ei ysgogi'n bennaf gan elw, mae angen i'r cyhoedd wybod ble mae AI yn cael ei ddefnyddio ac yn effeithio ar eu bywydau.

Nid yw'r label "deallusrwydd artiffisial" o reidrwydd yn golygu bod cynnyrch yn arloesol: nid yw'r term wedi'i ddiogelu, felly gellir ei gamddefnyddio i ddibenion masnachol.

## BARN Y CYHOEDD

Dim ond **14%** o'r cyhoedd yng Nghymru sydd o'r farn fod mwy o fanteision yn gysylltiedig ag AI na risgiau. Grwpiau difreintiedig sy'n lleiaf tebygol o gytuno y bydd AI o fudd iddynt fel unigolyn.

Mae pryderon yn cynnwys:

- swyddi
- ffugwybodaeth
- eiddo deallusol
- yr ymraniad digidol
- preifatrwydd

## LLWYDDIANT YNG NGHYMRU WRTH DDEFNYDDIO OFFER AI DIBYNADWY

- Gwella diagnosis canser (GIG Cymru)
- Cael hyd i goetiroedd hynafol (Llywodraeth Cymru)
- Modelu cefnforoedd ar gyfer ynni'r llanw (Prifysgol Bangor)

## POLISI A DATGANOLI

Mae AI yn fater a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU, ond mae'n croesi sawl maes ym musnes Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn archwilio sut y gallai AI helpu i wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Ond mae rhwystrau o hyd:

- mae llawer o wasanaethau'n brin o awtomeiddio neu ddigido syml hyd yn oed
- gall ansawdd data gwael atal canlyniadau defnyddiadwy o AI
- efallai na fydd offer masnachol yn cyd-fynd â gwerthoedd Llywodraeth Cymru.

## AMODAU AR GYFER TWF ECONOMAIDD

- Efallai na fydd angen systemau enfawr mwyach
- Cymorth i BBaCh
- Sector prifysgol cryf ar gyfer sgiliau ac ymchwil a datblygu
- Y sylw pennaf i foeseg
- Ôl troed carbon
- Llythrennedd AI i athrawon
- Sgiliau ar gyfer defnyddio AI
- Cadw eiddo deallusol ymchwil yng Nghymru



# Deallusrwydd Artiffisial (AI) a Chymru

## Y diweddaraf am y dechnoleg

### Pa mor newydd yw'r dechnoleg hon?

Maes astudio a ddaeth i'r amlwg yng nghanol yr ugeinfed ganrif yw Deallusrwydd Artiffisial, ac mae'n cyfeirio at unrhyw beiriant sy'n dynwared deallusrwydd. Mae AI traddodiadol wedi'i ddylunio i gyflawni tasg benodol ac ymateb i gyfres benodol o fewnbynnau, drwy ddysgu a rhagfynegi yn seiliedig ar ddata.

Fodd bynnag, mae'r sylw o du'r cyhoedd ac yn y cyfryngau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn fwy na 'heip'; rydym yn wir yn byw drwy foment bwysig yn hanes technoleg. Beth sy'n gwneud y foment hon yn bwysig?

- Gall offer AI Cynhyrchiol newydd bellach gyflawni **ystod eang o swyddogaethau** a chreu data newydd.
- Mae peiriannau bellach wedi pasio **Prawf Turing** – lle bydd bod dynol yn ceisio gwahaniaethu rhwng testunau wedi'u cynhyrchu gan fod dynol arall a thestunau wedi'u cynhyrchu gan beiriant.
- Yn sgil **ymchwydd sydyn mewn buddsoddiad** mae datblygiadau arloesol wedi bod yn digwydd yn gynt nag erioed, yn enwedig mewn busnesau newydd "uncorn" (gwerth dros $1bn).

Yn eu cyflwr presennol, nid yw offer AI cynhyrchiol yn berffaith o bell ffordd. Yn fwyaf nodedig, mae modelau ieithyddol mawr fel ChatGPT a DeepSeek yn tueddu i beidio gwybod yr hyn nad ydynt yn ei wybod, gan ddyfeisio ffuglen a'i chyflwyno (yn ddiarwybod) fel ffaith. Ar ben hynny, lle bo'r offer hyn yn defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer data ffynhonnell, mae'n ymddangos eu bod yn dechrau disbyddu'r hyn sydd ar gael, ac o bosib wedi dechrau dirywio wrth eu hyfforddi eu hunain ar eu cynnwys gwe eu hunain a gynhyrchwyd drwy AI, sydd weithiau o ansawdd isel. Fodd bynnag, mae cwmnïau'n ymwybodol o'r risg hon ac wedi dechrau buddsoddi mewn curadu a syntheseiddio data o ansawdd uchel. Mae modelau iaith mawr yn aml yn cael eu disgrifio fel "parotiaid stocastig", gan bwysleisio, er eu bod yn gallu cynhyrchu testun argyhoeddiadol, nad oes ganddynt unrhyw *ddealltwriaeth* o iaith nac ystyr, ac nad ydynt ond yn adlewyrchu cysylltiadau ystadegol yn y data hyfforddi.

Mae swm aruthrol o offer a phosibiliadau ym maes AI felly'n dod i'r amlwg yn y cyfnod hwn mewn hanes. Fodd bynnag, dylai buddsoddwyr a llunwyr polisi gofio nad yw'r term "deallusrwydd artiffisial" wedi'i ddiogelu, a'i fod felly'n agored i'w gamddefnyddio er budd masnachol, er enghraifft i godi pris rhy uchel am algorithm syml.

### Pryd mae AI yn gweithio orau?

Ar hyn o bryd, mae AI yn dal i fod yn fwyaf dibynadwy pan fo'r dasg yn gyfyngedig, pan geir cydweithiwr dynol, a phan fo'r data hyfforddi yn canolbwyntio ar dasg neu faes neilltuol ac wedi'u gwirio. Peth arall buddiol yw cynnwys aliniad â "gwerthoedd dynol" allweddol, sef buddioldeb, diniweidrwydd a gonestrwydd. Mae offer sy'n bodloni'r meini prawf hyn eisoes yn creu canlyniadau trawiadol yng Nghymru, gan wella'r diagnosis o ganser, cael hyd i goetiroedd coll, a modelu cefnforoedd.

### Diffyg rheoleiddio amlwg

Ceir prinder anarferol o drefniadau rheoleiddio, safonau a sicrwydd ansawdd yn y sector AI. Er bod rheoliadau llym (heb atal arloesedd) ar beirianneg mewn meysydd eraill - o geir i degellau - mae cwmnïau technoleg mawr wedi mabwysiadu'r arfer o ryddhau modelau AI cynhyrchiol a gadael i'r cyhoedd gael hyd i'r problemau.

Un rheswm am y gwahaniaeth hwn yw bod y rhyngrwyd yn croesi ffiniau; ac eto, ceir enghreifftiau o safonau rhyngwladol llwyddiannus. Gellir defnyddio yswiriant fel dull seiliedig ar ar risg o ymdrin â phroblemau a achosir gan AI, ond erys cwestiynau ynghylch pwy sy'n penderfynu a oes rhywbeth wedi mynd o'i le, pwy sydd ar fai, a beth sydd wedi achosi'r broblem mewn technoleg bocs du (lle nad oes modd gweld sut mae'r peiriant yn gwneud penderfyniadau). Mae'r sector ynni niwclear yn cynnig cynsail posibl arall ar ffurf "achosion diogelwch", sy'n amlinellu sut beth yw diogelwch yn union. Opsiwn arall posibl fyddai rheoleiddio'r *defnyddiwr* drwy rywbeth tebyg i "drwydded yrru AI", gan gefnogi defnydd gofalus o'r technolegau hyn a allai fod yn niweidiol.

Rydym mewn cyfnod lle mae datblygiad deallusrwydd artiffisial yn cael ei yrru'n bennaf gan gwmnïau masnachol mawr sydd wedi'u cymell gan elw, yn hytrach na diben cymdeithasol. Gallai partneriaethau cymdeithasol fod yn rhan o'r ateb: mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r sefyllfaoedd lle defnyddir AI a'r agweddau ar eu bywydau y mae'n effeithio arnynt, ac ymhle y caiff y data eu storio. Fodd bynnag, mae'n haws colli ymddiriedaeth na'i hennill, a gallai camgymeriad sy'n cael llawer iawn o sylw droi barn y cyhoedd yn erbyn y dechnoleg.

# Y sefyllfa o ran polisi

Nid rhywbeth sydd o ddiddordeb i gnewyllyn bach o wyddonwyr yw Deallusrwydd Artiffisial mwyach: mae'n cwmpasu disgyblaethau a sectorau lluosog erbyn hyn, ac mae'n hanfodol bod academyddion a llywodraethau yn deall hynny. Mae AI yn fater wedi'i gadw'n ôl i Lywodraeth y DU, ond ceir llawer o faterion ac ystyriaethau trawsbynciol sy'n effeithio ar feysydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru felly'n awyddus i osgoi ailadrodd gwaith sy'n digwydd yn San Steffan, ac yn lle hynny yn mabwysiadu ymagwedd gydgysylltiol ar draws meysydd lluosog yr effeithir arnynt yng ngwaith y llywodraeth, fel trafnidiaeth, gofal iechyd, moeseg a chaffael.

Mae blaenoriaethau allweddol AI ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- diogelu a chreu budd i bob dinesydd
- cefnogi darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus
- defnyddio AI fel catalydd ar gyfer twf economaidd.

Gwyddom fod yn rhaid i Gymru osgoi gwastraffu adnoddau drwy ailadrodd gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud mewn mannau eraill; er hynny, gall Cymru fod yn uchelgeisiol bachu cyfle mewn mannau strategol.

## Diogelu dinasyddion

Dengys ymchwil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol mai ond 14% o'r cyhoedd yng Nghymru sy'n meddwl bod mwy o fanteision na risgiau yn gysylltiedig ag AI (sy'n debyg i gyfartaledd y DU). Gellir rhannu'r canlyniadau yn ôl braint: ar draws y DU, mae dynion, pobl nad ydynt yn anabl, a 5ed cwintel y MALI (â'r lleiaf o amddifadedd) ymhlith y grwpiau sy'n fwyaf tebygol o gytuno y bydd AI o fudd iddynt yn unigol.

Mae aelodau'r cyhoedd yn pryderu am AI am nifer o resymau. Ceir pryderon y gallai ddisodli swyddi, ac nid yw'r pryderon hynny'n ddi-sail. Yn ôl yr IMF, mae 40% o swyddi yn agored i risg gan AI, gan gynyddu i 60% mewn economïau datblygedig. Yn wahanol i chwyldro diwydiannol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, bellach y swyddi "coler wen" yw'r swyddi sydd fwyaf mewn perygl. Yng Nghymru, mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn gweithio i ddeall sut y gallai AI effeithio ar y gweithlu a chyflogaeth.

Mae hawliau preifatrwydd yn y fantol, gydag AI yn cael ei ddefnyddio i adnabod wynebau wrth orfodi'r gyfraith, gan gynnwys defnydd gan Heddlu De Cymru . Yn wir, yn enwedig lle bo AI yn cael ei ddefnyddio i orfodi'r gyfraith ac i ddibenion difrifol eraill, mae llawer o ddinasyddion yn pryderu am ragfarn mewn offer sy'n aml yn cael eu creu gan dimau anamrywiol, drwy ddefnyddio data sydd wedi'u gogwyddo'n drwm tuag at ddemograffeg y mwyafrif yn yr Unol Daleithiau.

Mae AI hefyd yn cyfrannu at ledaeniad twyllwybodaeth, yn ewnedig drwy gynhyrchu delweddau a fideos ffug y mae'n anodd i lawer o ddinasyddion wahaniaethu rhyngddynt a realiti . Mae'n wir bod ffotograffau ffug wedi bodoli bron ers dyfodiad ffotograffau go iawn, ond yr hyn y mae AI yn ei greu yw swm llawer mwy o dwyllwybodaeth, ac mae gwirwyr ffeithiau yn ei chael hi'n anodd cadw ar ben hynny. Mae'r sgiliau meddwl beirniadol a enillir drwy addysg y celfyddydau a'r dyniaethau yn bwysicach nag erioed i frwydro yn erbyn ffugwybodaeth.

Mae AI hefyd yn fygythiad i eiddo deallusol, yn enwedig offer AI cynhyrchiol sy'n defnyddio'r rhyngrwyd fel data hyfforddi. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi eiddo deallusol (y mae'r swyddfa ar ei gyfer wedi'i leoli yng Nghasnewydd, Cymru), ond mae'r materion yn drawsbyciol a rhyngwladol. Yn hollbwysig i Gymru, mae AI yn creu pwysau neilltuol ar y Diwydiannau Creadigol, er enghraifft pan fydd AI cynhyrchiol yn defnyddio celf wedi'i greu gan ddyn heb unrhyw gredyd na thaliad i greu delwedd. Mae bron i 200,000 o lyfrau wedi cael eu lawrlwytho'n anghyfreithlon i hyfforddi AI . Ceir dadleuon parhaus hefyd ynghylch a ellir cyfrif AI fel dyfeisiwr – yn 2023 dyfarnodd Goruchaf Lys y DU na ellir gwneud hynny .

Yn olaf, mae tra-arglwyddiaeth cwmnïau technoleg mawr fel OpenAI dros y farchnad yn agor y posibilrwydd o waethygu'r ymraniad digidol yng Nghymru drwy gynyddu pris offer AI.

### Cefnogi darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus

Mae Llywodraeth Cymru – gan weithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol – wedi sefydlu rhaglen llythrennedd AI a chanllaw wedi'i dargedu ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar yr agweddau hynny lle gall AI greu'r gwahaniaeth mwyaf, ac ar ddeall y risgiau. Mae Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru wedi creu cymuned ymarfer ar-lein ar gyfer Awtomatiaeth ac AI ac i alluogi gweithwyr y sector cyhoeddus i ddysgu sgiliau AI oddi wrth ei gilydd, ac i osgoi ailddyfeisio'r olwyn.

Mae'r Ganolfan hefyd wedi cynnal arolwg i gael darlun o aeddfedrwydd a dealltwriaeth AI y sector cyhoeddus yng Nghymru. Canfu'r arolwg fod yr ymagwedd wedi bod yn araf a gofalus, a hynny o fwriad: ceir awydd i ddigido, ac mae llawer yn archwilio'r defnydd llawn o AI, ond nid yw'r cynnyrch sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigon aeddfed, ac nid yw AI wedi'i ymwreiddio eto mewn busnes fel arfer.

Ceir cwestiynau ynghylch cerdded cyn cropian: byddai llawer o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn elwa ar fabwysiadu offer awtomeiddio sylfaenol cyn symud ymlaen i AI mwy datblygedig. Ac mewn llawer o feysydd, nid yw ansawdd y data yn ddigon da eto i greu canlyniadau defnyddiol drwy AI. Rhaid i Gymru osgoi'r demtasiwn i fuddsoddi mewn cyflwyno offer AI newydd sgleiniog cyn buddsoddi i greu sylfaen gadarn o ran ansawdd data.

Er ei bod yn bosibl na fydd offer AI corfforaethol rhyngwladol yn cael eu datblygu yng Nghymru, mae gennym fel cenedl reolaeth dros wariant cyhoeddus a chaffael. Mae'n wir, er hynny, fod y mwyafrif helaeth o offer AI sy'n wynebu'r cyhoedd wedi'u datblygu gan gwmnïau masnachol mawr yn yr UD er mwyn creu elw, ac y bydd gogwydd y cwmnïau hynny a'u llywodraeth yn dylanwadu ar yr offer. Ond beth allai ddigwydd pe bai Cymru (a gwledydd eraill) yn cysylltu offer technolegol a gaffaelir gan y sector cyhoeddus â diben cymdeithasol, a gofynion moesegol cryf?

### AI fel catalydd ar gyfer twf economaidd

Mae gan y DU eisoes y drydedd farchnad AI fwyaf yn y byd, ar ôl yr Unol Daleithiau a Tsieina. Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Chynllun Gweithredu Cyfleoedd AI, a oedd yn canolbwyntio mwy ar dwf a llai ar ddiogelwch. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld mai yng Nghymru y bydd y gyfran fwyaf o fuddsoddiad newydd sylweddol yn y DU, a hynny gan gwmni Vantage Data Centres o'r Unol Daleithiau.

Fel sy'n aml yn wir, mae heriau i dwf yn cynnwys seilwaith, arian, a sgiliau. Gallai cyllid Innovate UK, Hwbiau BBaCh Canolfan Hartree y Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg, ynghyd ag unrhyw fuddsoddiad newydd drwy'r Cynllun Gweithredu Cyfleoedd

AI gyfrannu rhywfaint at ymdrin â materion yn gysylltiedig â seilwaith ac arian. Yn absenoldeb cymhellion ariannol pellach, i ddenu cwmnïau newydd, gallai Cymru ystyried cynnig arlwy o sgiliau deniadol, amodau gwaith ffafriol, ein diwylliant o gydweithredu cenedlaethol a'r rhwyddineb cymharol o gydlynu'n genedlaethol.

O ran sgiliau, mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar waith ar gyfer dysgwyr 3-16+ oed yng Nghymru, ond mae angen amser ac ymdrech o hyd i gael effaith sylweddol ar sgiliau. Yn benodol, mae angen dybryd i ddatblygu llythrennedd AI ymhlith athrawon ysgol. Gan fod y gyfundrefn addysg wedi'i datganoli, mae gan Gymru gyfle i gynnig cwricwlwm hyder digidol arloesol a blaengar ar draws yr holl gyfundrefn addysg, gan greu dinasyddion a gweithwyr sydd â'r gallu i ymgiprys â'r dyfodol. Byddai'n ddoeth i'r agenda sgiliau hon gydnabod mai defnyddwyr AI yn hytrach na datblygwyr AI fydd mwyafrif y cyhoedd, a dylai felly gynnwys peirianneg prompt effeithiol, dealltwriaeth gref o'r materion moesegol penodol sy'n gysylltiedig â'r *defnydd* o offer AI, meddwl yn feirniadol, a meddwl drwy systemau. Mae'n bosibl ymwreiddio AI yn fwriadol fel offeryn wrth ddysgu ac addysgu, gan ddefnyddio asesiadau deallus i osgoi twyllo; er enghraifft, gall athrawon ofyn i fyfyrwyr roi cwestiwn traethawd i mewn i offeryn model iaith mawr, a beirniadu'r canlyniad. Yng Nghymru, gofynnwyd i'r corff arolygu addysg, Estyn, gynnal adolygiad o'r defnydd o AI mewn addysg.

Mae sefydliadau addysg uwch Cymru yn greiddiol i'r gweithlu hynod fedrus hwn, ac maent hefyd yn cynhyrchu'r ymchwil o safon fyd-eang sy'n sail i arloesi. Dengys dadansoddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru fod ymchwil o Gymru yn ysgogi effeithiau cadarnhaol sylweddol oddi mewn i Gymru ac yn rhyngwladol. Fodd bynnag, mae ymchwilwyr prifysgol yn agored i gamfanteisio gan gwmnïau technoleg rhyngwladol mawr sy'n trosi datblygiadau mawr ym maes y gwyddorau sylfaenol a mathemateg yn elw heb roi unrhyw gydnabyddiaeth na thâl i wyddonwyr. Mae gan ymchwilwyr prifysgol ofynion sy'n gwrthdaro - i gyhoeddi eu gwaith a hefyd i sicrhau patentau neu drwyddedau. Byddai Cymru a'r DU yn ehangach yn elwa'n economaidd o gefnogi ymchwilwyr prifysgol i ddatblygu a chadw eiddo deallusol, ac o gymell ymchwilwyr i barhau i wneud cynnydd yn eu sefydliad cartref.

Fel arfer ceir risgiau is a chanlyniadau cywirach a mwy dibynadwy yn gysylltiedig ag offer dysgu peirianyddol sydd wedi'u hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer ymchwil wyddonol. Y rheswm am hynny yw bod ganddynt gylch gwaith cyfyngedig a set ddata â sicrwydd ansawdd.

Serch hynny, ceir pryderon yn y gymuned wyddonol nad yw cyllidwyr ymchwil y DU yn craffu digon ar foeseg ac effaith AI o gymharu â rhaglenni'r UE: rhaid i wyddonwyr gofio hanes hir y sector ymchwil o achosi niwed - o ewgeneg i'r bom atom.

Mae'r uchelgeisiau hyn am dwf a chynnydd hefyd wedi creu tensiwn â thargedau'r hinsawdd. Mae defnyddio ChatGPT-4 i ysgrifennu e-bost 100 gair yn defnyddio digon o ynni i wefru iPhone Pro Max saith gwaith. Fodd bynnag, mae DeepSeek yn honni ei fod yn defnyddio 50-75% yn llai o ynni na chwmnïau cyfatebol yn yr UD. Yn wir, mae ymddangosiad diweddar DeepSeek yn dangos y gellid bod angen cwtogir systemau eithriadol o fawr a chymhleth, ac anelu mwy o fuddsoddiad tuag at dalent y DU i dyfu arbenigedd mewn meddalwedd o BBaCh.

# Llyfryddiaeth

Mae'r dudalen we hon yn rhoi trosolwg o Bolisi a Strategaeth AI Llywodraeth Cymru: Deallusrwydd artiffisial (AI) | LLYW.CYMRU (Chwefror 2025).

Public awareness, opinions and expectations about artificial intelligence, Swyddfa Ystadegau Gwladol, Hydref 2023

Gen-AI: Artificial Intelligence and the Future of Work, Y Gronfa Ariannol Ryngwladol, Mehefin 2024.

Broadening the Gains from Generative AI: The Role of Fiscal Policies, Y Gronfa Ariannol Ryngwladol, Mehefin 2024.

Defnyddio deallusrwydd artiffisial yn y gwaith, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2024.

Police to use live facial recognition in Cardiff during Beyoncé concert, The Guardian, Mai 2023.

How AI-generated disinformation might impact this year's elections and how journalists should report on it, Sefydliad Astudiaethau Newyddiaduraeth Reuters, Prifysgol Rhydychen, Mawrth 2024.

These 183,000 Books Are Fueling the Biggest Fight in Publishing and Tech, The Atlantic, Medi 2023.

AI cannot be patent 'inventor', UK Supreme Court rules in landmark case, Reuters, Rhagfyr 2023.

Mae'r canllawiau Cymreig hyn wedi'u haddasu o ganllawiau Llywodraeth y DU ac yn AI Playbook Llywodraeth y DU.

Global AI Power Rankings: Stanford HAI Tool Ranks 36 Countries in AI, Stanford University Human-Centred Artificial Intelligence, Tachwedd 2024.

Cymru'n ganolog i ymdrech y DU i roi hwb i AI, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2025.

Estyn yn mynd i adolygu'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) Cynhyrchiol mewn ysgolion, Estyn, Ionawr 2025.

'Thirsty' ChatGPT uses four times more water than previously thought, The Times, Hydref 2024.

# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Ym mis Rhagfyr 2024, daeth Cymdeithas Ddysgedig Cymru â grŵp o arbenigwyr o'r sectorau ymchwil, cyhoeddus a phreifat ynghyd i drafod sefyllfa gyfredol Deallusrwydd Artiffisial yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dystiolaeth a'r cyngor arbenigol a gasglwyd drwy'r fforwm hwn o arbenigwyr.

Y Cadeirydd: Rossi Setchi (Prifysgol Caerdydd)

Cyfranwyr:

Gary Beauchamp FLSW (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)

Anthony Cohn FLSW (Prifysgol Leeds a Sefydliad Alan Turing)

Joseph Connor (CarefulAI)

Martina Feilzer FLSW (Prifysgol Bangor)

Dawn Greenberg (Ymchwil ac Arloesi yn y DU)

Layla Jader FLSW (Ymgynghorydd Annibynnol)

Richard Jones (Llywodraeth Cymru)

Mark Lee FLSW (Prifysgol Aberystwyth)

Chenfeng Li FLSW (Prifysgol Abertawe)

Biagio Lucini FLSW (Prifysgol Abertawe)

Faron Moller FLSW (Prifysgol Abertawe)

Omer Rana FLSW (Prifysgol Caerdydd)

Qiang Shen FLSW (Prifysgol Aberystwyth)

Mark Taubert FLSW (Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a Phrifysgol Caerdydd)

Peter Thomas (Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol)

Stephen N Williams FLSW (Prifysgol Queen's Belfast)

Reyer Zwiggelaar FLSW (Prifysgol Aberystwyth).